

CAPEL Y TABERNAACL, Cyf.

ADRODDIAD BLYNYDDOL A DATGANIAD ARIANNOL

Y flwyddyn hyd at 31^{ain} Rhagfyr 2016



Capel y Tabernacl, Cyf.
Cwmni Cyfyngedig trwy warant Rhif: 06349041
Elusen gofrestredig Rhif: 1122584

CAPEL Y TABERNAACL, Cyf.

CYNNWYS

Gwybodaeth gyfreithiol a gweinyddol	Tudalen 2–3
Swyddogion y Tabernacl	Tudalen 4–5
Adroddiad y Cyfarwyddwyr	Tudalen 6–8
Adroddiad y Cadeirydd	Tudalen 9–10
Adroddiad yr Archwilydd Annibynnol	Tudalen 11
Datganiad o'r Gweithgareddau Ariannol	Tudalen 12
Mantolen	Tudalen 13
Nodiadau sy'n ffurfio rhan o'r datganiadau ariannol	Tudalen 14–20
Datganiad Manwl o'r Gweithrediadau Ariannol	Tudalen 21
Atodiad 1: Rhestr Aelodau 2016	Tudalen 22–24
Atodiad 2: Ystadegau 2016	Tudalen 25
Atodiad 3: Cyfraniadau'r Aelodau	Tudalen 26–27

Dymuna Capel y Tabernacl, Cyf. ddiolch i'r canlynol am eu cymorth ariannol gyda'r gwaith o wella'r adeiladau yn ddiweddar:

Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, Undeb yr Annibynwyr Cymraeg
ac Ymddiriedolaeth Pantyfedwen.

Enw cofrestredig y cwmni: Capel y Tabernacl, Cyf.

Cyfeiriad Cofrestredig: 9 Gerddi'r Sofran, Ffordd Cefn yr
Hendy, Meisgyn, Pontyclun
CF72 8SZ

Ysgrifennydd y Cwmni: Gwilym Huws

CAPEL Y TABERNAACL, Cyf.

Cyfarwyddwyr y Cwmni ac Ymddiriedolwyr yr Elusen:

Enw

Margaret Pritchard Copley
Ann Dwynwen Davies
Emlyn Davies*
Carys Davies
Celt Hughes*
Rhiannon Humphreys
Gwilym Huws
Emlyn Penny Jones
Sian Elin Jones
Gwerfyl Morse
Caroline Rees*
Geraint Eirian Rees
Wendy Reynolds
Glenys Mair Glyn Roberts*
John Llewellyn Thomas

Etholwyd

Rhagfyr 2015
Tachwedd 2016
Tachwedd 2013
Tachwedd 2014
Tachwedd 2013
Rhagfyr 2015
Tachwedd 2014
Tachwedd 2016
Rhagfyr 2015
Rhagfyr 2015
Tachwedd 2013
Tachwedd 2016
Tachwedd 2014 (*Cadeirydd*)
Tachwedd 2013
Tachwedd 2016

Mae disgwyl i draean y cyfarwyddwyr ymddeol yn eu tro bob blwyddyn. Ymddeolodd y cyfarwyddwyr a nodir gyda * ym mis Tachwedd 2016.

Gwefan: www.tabernacl.org

Cyfreithwyr: Devonalds, York House, Pontypridd CF37 1JW

Bancwyr: Lloyds TSB, Sgwâr y Farchnad, Pontypridd CF37 2TF

Cyfrifydd: Emyr Evans, Watts Gregory LLP, Elfed House, Oak Tree Court,
Mulberry Drive, Parc Busnes Porth Caerdydd, Caerdydd CF23 8RS

CAPEL Y TABERNACL, Cyf.

SWYDDOGION Y TABERNACL (AR WAHÂN I FWRDD Y CYFARWYDDWYR)

Gweinidog Anrhydeddus

Y Parchg. D. Eirian Rees

Organydd

Sian Elin Jones

gyda chymorth Bethan Roberts, Rhiannon Humphreys, Eleri Huws, Geraint Rees

Ysgrifennydd

Gwilym Huws

Trysorydd

Keith Rowlands

Swyddog Llenyddiaeth

Rowland Wynne

Cysylltwyr Ardal

Creigiau, Groesfaen: Geraint Davies, Jen Macdonald, Nia Williams

Crown Hill, Gwaun Meisgyn, Beddau: Ann Rees

Efail Isaf: Shelagh Griffiths, Loreen Williams

Llantrisant: Rhiannon Price, Lowri Roberts

Pentre'r Eglwys: Rhiannon Humphreys, Carys Davies, Eirian Rowlands

Meisgyn: Jane Eryl Jones

Pentyrch: Marian Wynne

Ton-teg: Elaine James, Audrey Lewis

Radur, Gwaelod-y-garth: Ros Evans

Gweithgor Ariannol

Gwilym Huws (Cadeirydd)

Wyn Penri Jones (Ysgrifennydd)

Keith Rowlands (Trysorydd)

Pwyllgor Amddiffyn Plant ac Oedolion Bregus

Gwion Evans (Cadeirydd)

Pwyllgor y Meddiannau

Mike West (Cadeirydd)

Y Gweithgor Gweinidogaethu

Parchg. D. Eirian Rees (Cadeirydd)

Allan James (Ysgrifennydd)

Merched y Tabernacl

Rosalind Evans

Judith Thomas

CAPEL Y TABERNACL, Cyf.

**SWYDDOGION Y TABERNACL
(AR WAHÂN I FWRDD Y CYFARWYDDWYR)**

Gweithgor Cyfiawnder Cymdeithasol

John Llewellyn Thomas (Cadeirydd)
Ann Dwynwen Davies (Ysgrifennydd)

Cymorth Cristnogol

John Llewellyn Thomas

Bwydo'r Digartref

Margaret Calvert

Cronfa Lesotho

Nia Williams

Yr Ysgol Sul

Lowri Roberts (Ysgrifennydd)

Masnach Deg

Caroline Rees

Rheolwr Safle

Ioan Rees

ADRODDIAD Y CYFARWYDDWYR

Mae'r Cyfarwyddwyr, sydd hefyd yn Ymddiriedolwyr yr elusen at ddiben deddfwriaeth cwmnïau, yn cyflwyno eu hadroddiad blynyddol a'r datganiadau ariannol archwiledig am y flwyddyn yn diwedd 31 Rhagfyr 2016. Mae'r Cyfarwyddwyr wedi mabwysiadu'r "Datganiad o Arferion a Argymhellwyd i Elusennau" a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2015 wrth baratoi'r adroddiad blynyddol a'r datganiadau hyn yn unol â Safon Adroddiadau Ariannol y Deyrnas Gyfunol a Gweriniaeth Iwerddon (FRS 102) (yn weithredol o'r 1 Ionawr 2015).

Strwythur, rheoli a threfn lywodraethol

Mae Capel y Tabernacl, Cyf. yn gwmni elusennol ac yn gwmni cyfyngedig o dan warant fel y'i diffinnir yn Neddf Cwmnïau 2006. Fe'i sefydlwyd yn unol â'r Memorandwm sy'n datgan manylion a phwerau'r cwmni, a chaiff ei reoli'n unol â'r Erthyglau Cymdeithasiad.

Prif ddiben y cwmni elusennol hwn yw hybu'r grefydd Gristnogol yn unol â chredoau'r anghydfurfwyr Protestannaidd a elwir yn Annibynwyr Cymraeg fel aelodau o Undeb yr Annibynwyr Cymraeg; a hefyd at ddibenion cyffredinol y cyfryw gyrff elusennol neu at ddibenion eraill a fydd yn elusennol yn unig fel y penderfynir o bryd i'w gilydd gan y Cyfarwyddwyr. Y Bwrdd sydd yn gyfrifol am arolygu holl waith a busnes yr elusen, gyda'r aelodau'n gweithredu fel Cyfarwyddwyr.

Y Cyfarwyddwyr

Etholir y Cyfarwyddwyr gan Gyfarfod Cyffredinol Blynyddol Capel y Tabernacl, Cyf. Ni fyddant yn llai na chwech mewn nifer ond (oni bai y pennir fel arall gan benderfyniad Cyfarfod Cyffredinol) ni fydd yn amodol ar unrhyw uchafswm. Mae gan y Bwrdd yr hawl i gyfethol cyfarwyddwyr ychwanegol. Yn dilyn pob Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol, bydd y Cyfarwyddwyr yn penodi un o'u plith i fod yn gadeirydd eu cyfarfodydd. Y nifer angenrheidiol i ffurfio cworwm yw 6 person sydd â'r hawl i bleidleisio ar y mater i'w drafod.

Ymgynghorwyr

Trwy gydol 2016 gweithredodd Eirian Rees, Allan James a Keith Rowlands fel ymgynghorwyr.

Rheoli

Cynhelir cyfarfodydd y Bwrdd yn fisol. Mae gwaith y capel yn cael ei drefnu o ddydd i ddydd gan y pwyllgorau a restrir ar dudalennau 4 a 5.

Bydd pob un o'r pwyllgorau / grwpiau hyn yn adrodd yn ôl i'r Bwrdd yn rheolaidd.

Mae'r Erthyglau Cymdeithasiad yn datgan bod pob aelod o'r Elusen yn ymgymryd i gyfrannu at asedau'r elusen swm gofynnol na fydd yn fwy na deg punt os digwydd i'r elusen gael ei dirwyn i ben.

Cyflogaeth

Mae'r Tabernacl yn cyflogi un person, sef Mr Ioan Rees, fel Rheolwr Safle, ynghyd â glanhawr.

Adolygiad Risg

Mae Bwrdd y Cyfarwyddwyr wedi adolygu'r risgiau sylweddol hynny lle mae Capel y Tabernacl, Cyf. yn agored i risg, ac mae systemau wedi eu sefydlu i leihau'r risgiau hynny. Paratowyd adroddiadau rheolaidd er mwyn sicrhau bod y camau priodol yn bodoli i leihau'r risgiau, sydd yn cynnwys risgiau megis parhad y capel, materion ariannol, iechyd a diogelwch, amddiffyn plant ac oedolion bregus, staffio a'r amgylchedd.

Amcanion a Gweithgareddau

Prif amcan y cwmni yw bod yn eglwys sy'n rhoi cyfle i'r aelodau fod yn dystion i Iesu Grist ym mhentref Efail Isaf, ac yn yr ardal o gwmpas. Golyga hynny ymgymryd â'r holl weithgareddau sy'n arferol i eglwys Gristnogol ac fe'u rhestrir yn yr Erthyglau Cymdeithasiad. Mae gan y cwmni hefyd hawl i arddel at ddibenion cyffredinol unrhyw gorff elusennol y dymuna'r Ymddiriedolwyr ei gefnogi, neu at ddibenion eraill y bydd yr Ymddiriedolwyr yn eu hystyried yn rhai cyfan gwbl elusennol.

Llwyddiannau a Pherfformiad

Penderfynodd y Bwrdd gyhoeddi Adroddiad Blynyddol ar wahân i'r cyfrifon, yn manylu ar weithgareddau'r elusen. Bydd y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol hefyd yn adolygu'r hyn a gyflawnwyd. At ddibenion y datganiad hwn, gweler Adroddiad y Cadeirydd.

CAPEL Y TABERNAACL, Cyf.

Adolygiad Ariannol

Adroddwyd canlyniadau'r elusen yn y Datganiad o Weithgareddau Ariannol ar dudalen 12.

Derbyniwyd cyfanswm o £63,796 o adnoddau (2015: £93,013) a gwariwyd cyfanswm o £50,409 yn y flwyddyn (2015: £45,293). Y rheswm am y naid yn y derbyniadau yn y flwyddyn 2015 oedd yr arian a godwyd trwy Gronfa Apêl Atgyweirio'r Capel ynghyd â rhodd gan y Gynulleidfa Iaith Saesneg tuag at yr apêl. Roedd adnoddau net a dderbyniwyd llai hynny a wariwyd yn ystod y flwyddyn yn £13,387 gyda balans a ddygwyd ymlaen o £753,977. Cynrychiolir hyn gan gronfa gyfyngedig o £1,651 a'r gronfa anghyfyngedig o £752,326 sy'n ymddangos yn y Fantolen ar dudalen 13.

Ni roddwyd unrhyw dâl i'r ymddiriedolwyr.

Polisi Buddsoddi

Rheolwyd polisi buddsoddi'r cwmni gan yr Erthyglau Cymdeithasiad, o fewn y canllawiau a osodwyd. Rydym yn adolygu'r sefyllfa hon yn gyson.

Polisi Cronfeydd

Mae'r cwmni'n ffodus bod cyfran helaeth o'r incwm yn dod trwy gyfraniadau aelodau, a'r rheiny ar y cyfan yn weddol gyson trwy'r flwyddyn, gyda nifer helaeth yn talu trwy archeb banc. Derbynnir tua £21K y flwyddyn mewn rhoddion gan aelodau. Y polisi yw ceisio sicrhau bod tua 3 mis o wariant arferol yn aros yn y cyfrif cyfredol yn gyson, a'r gweddill yn cael ei drosglwyddo i'r gronfa fuddsoddi, fel y nodwyd uchod.

Datblygiadau

Teimla'r ymddiriedolwyr yn hyderus fod dyfodol ariannol Capel y Tabernacl, Cyf. ar seiliau cadarn iawn.

Cyfrifoldebau'r Cyfarwyddwyr

Mae'r Cyfarwyddwyr yn ymwybodol o'u dyletswyddau yn ôl y ddeddf ar gyfer cwmnïau, ac felly'n derbyn y cyfrifoldeb am baratoi'r Adroddiad Blynyddol. Mae hyn yn cynnwys cyfrifoldeb am baratoi'r datganiadau ariannol yn unol â gofynion safonau cyfrifyddol perthnasol y Deyrnas Unedig. Mae'r Bwrdd yn cydnabod bod cyfraith elusennau'r Deyrnas Unedig yn mynnu bod yr ymddiriedolwyr yn darparu datganiadau ariannol am bob blwyddyn, sy'n rhoi darlun cywir a theg o gyflwr yr elusen, ac o incwm a thraul yr elusen am y cyfnod hwnnw.

Wrth baratoi'r datganiadau ariannol mae disgwyl i'r Cyfarwyddwyr:

- ddewis polisiâu cyfrifyddol addas ac yna'u gweithredu'n gyson
- ddyfarnu ac amcangyfrif yn rhesymol a doeth
- ddweud bod safonau cyfrifyddol perthnasol a *Datganiad Ymarferion a Argymhellwyd* wedi cael eu dilyn heblaw am unrhyw wryiadau materol sydd wedi eu datguddio a'u hesbonio yn y datganiadau cyllidol
- ddarparu datganiadau ariannol ar sail busnes oni bai ei bod yn anaddas i gymryd yn ganiataol y bydd yr elusen yn parhau mewn busnes.

Mae'r Cyfarwyddwyr yn gyfrifol am gadw cyfrifon penodol sy'n datgelu gyda chywirdeb rhesymol, ac ar unrhyw adeg, gyflwr cyllidol yr elusen ac i'w galluogi i sicrhau bod y datganiadau ariannol yn cydsynio â'r deddfau perthnasol. Maent hefyd yn gyfrifol am warchod asedau'r elusen ac am gymryd camau rhesymol i atal ac i ganfod twyll neu afreoleidd-dra arall.

Polisi Arian Wrth Gefn

Penderfynodd y Cyfarwyddwyr roi ystyriaeth fanwl i anghenion y cwmni elusennol am arian wrth gefn, yn unol â'r canllawiau a gyhoeddwyd gan y Comisiwn Elusennau yn y ddogfen "Elusennau a chronfeydd wrth gefn" (CC19).

Yn ein barn ni, mae angen cronfa wrth gefn i'r dibenion canlynol:

1. I gynnal gwaith yr elusen a gweithgareddau'r eglwys mewn cyfnodau lle y gallem fod yn wynebu gostyngiad mewn incwm.
2. I wireddu prosiectau mewn cyfnod byr yn ôl y galw.
3. I gynnal a chadw'r adeiladau fel ein bod yn medru wynebu unrhyw waith atgyweirio angenrheidiol heb i'r gost lesteirio ein prif waith fel eglwys.


CAPEL Y TABERNACL, Cyf.


Archwilydd Annibynnol

Archwilydd Annibynnol y cyfrifon hyn oedd Mr Emyr Evans, Cyfrifydd Siartredig, Watts Gregory LLP, Elfed House, Oak Tree Court, Mulberry Drive, Parc Busnes Porth Caerdydd, Caerdydd CF23 8RS. Yn ogystal, penodwyd Mr Evans i gwblhau'r cyfrifon am y flwyddyn gyfredol.

Paratowyd yr adroddiad hwn yn unol â'r "Datganiad o Arferion a Argymhellwyd – Adrodd a Chyfrifo i Elusennau" ac yn unol â darpariaethau arbennig Rhan VII o Ddeddf Cwmnïau 2006 sy'n berthnasol i gwmnïau bach.

Cymeradwywyd gan y Cyfarwyddwyr/Ymddiriedolwyr ar 25 Gorffennaf 2017 ac fe'i llofnodwyd ar eu rhan gan:


Margaret Pritchard Copley
Cyfarwyddwr


Gwilym Huws
Cyfarwyddwr

ADRODDIAD Y CADEIRYDD

Mae'n anodd credu bod blwyddyn arall wedi mynd heibio, a'r ail i mi fel Cadeirydd Bwrdd y Cyfarwyddwyr. Unwaith yn rhagor bu'n flwyddyn llawn prysurdeb ac egni gyda myrdd o weithgareddau a digwyddiadau sy'n tanlinellu lle blaenllaw'r eglwys ym mywydau ein haelodau ac o fewn y gymuned ehangach. Fel bob amser, mae'r cyfan yn deillio o'r gwaith tîm cryf sy'n bodoli, ac yn y cyswllt hwn hoffwn ddiolch yn gyntaf i aelodau'r Bwrdd am wneud fy ngwaith mor bleserus. Rhaid diolch yn arbennig i'r Ysgrifennydd, Gwilym Huws, am y ffordd ddiffwdan mae'n trefnu'r cyfarfodydd, gweithredu'r penderfyniadau, cadw cofnodion a chyfathrebu mor effeithiol ag aelodau'r eglwys. Yn yr un modd mae Keith Rowlands, ein Trysorydd, wedi cadw llygad barcud unwaith yn rhagor ar faterion ariannol yr eglwys ac wedi bod o gymorth mawr i'r Bwrdd gyda'i bresenoldeb yn ein cyfarfodydd a'i gyngor doeth a chymedrol. Yn ddiweddar, hysbysodd Keith ei fwriad i ymddeol fel Trysorydd yr eglwys ar ddiwedd 2017. Carwn fanteisio ar y cyfle hwn i ddiolch o waelod calon iddo am ysgwyddo'r baich o ofalu am gyfrifon yr eglwys dros y naw mlynedd diwethaf – cyfnod o brysurdeb eithriadol yn hanes yr achos.

Ym mis Tachwedd 2016, daeth tymor Emlyn Davies, Caroline Rees, Glenys Mair Roberts a Celt Hughes fel aelodau o'r Bwrdd i ben. Diolchaf yn gynnes iddynt am eu cyfraniad gwerthfawr a'u hymroddiad diflino. Enwebwyd Geraint Rees, Ann Dwynwen Davies, John Llewellyn Thomas ac Emlyn Penny Jones i'w holynu, a diolchaf iddynt hwythau am eu parodrwydd i ymgymryd â'r gwaith am y tair blynedd nesaf.

Mae'n braf cael adrodd bod prosiect adnewyddu'r capel bellach wedi ei gwblhau. Arwyddwyd y ddogfen derfynol ym mis Chwefror ar ôl cyweirio'r mân bethau oedd angen sylw cyn trosglwyddo'r taliad terfynol i'r adeiladwyr. Mae defnydd yr eglwys a'r gymuned leol o'r Capel a'r Ganolfan yn ehangu'n raddol, ac fe welsom nifer o ymwelwyr yn dod i mewn drwy'r drysau am wahanol resymau dros y flwyddyn. Yn ddiweddar, Capel y Tabernacl oedd lleoliad cynhadledd flynyddol Cristnogaeth21 gyda Dr Val Webb o Awstralia yn annerch. Unwaith yn rhagor eleni, estynnwyd croeso i ysgolion a chorau lleol i gynnal eu cyngherddau llwyddiannus i gapel oedd yn llawn i'r mylon. Yn achlysurol hefyd, fe ddefnyddiwyd y capel i dderbyn rhoddion aelodau'r eglwys a'r pentref tuag at elusennau lleol a thramor. Mynegodd sawl un nad oedd wedi bod yn y capel ers blynyddoedd pa mor ddeniadol a chlyd yw'r adeilad ar ei newydd wedd.

Daeth cyfnod i ben ar ddiwedd 2016 wrth i Ann Dixey ymddeol fel Rheolwr Safle. Heb amheuaeth, am gyfnod o naw mlynedd bu ei hymroddiad i'w swydd yn rhyfeddol ac fel eglwys buom yn ffodus iawn fod gennym yn Ann berson mor gydwybodol, gweithgar, effeithiol a chymwynasgar yng ngofal y safle dros gyfnod a welodd newidiadau mawr. Pleser mawr ar ddechrau 2017 oedd croesawu Ioan Rees fel ein Rheolwr Safle newydd. Dymunaf yn dda i'r ddau ohonynt.

Braf oedd gweld nifer o wynebau newydd yng ngofal ein gwasanaethau eleni. Llwyddodd Geraint Rees a'r Gweithgor Gweinidogaethu i drefnu rhaglen amrywiol a bywiog o Oedfaon Pentref, Oedfaon Teulu, Oedfaon yr Ysgol Sul a'r Twmiaid, a chyfraniadau gwerthfawr gan weinidogion gwadd. Pleser hefyd oedd croesawu i'n plith y Prifardd Mererid Hopwood a'r bardd a'r awdur Grahame Davies. Cawsom gan y ddau ohonynt anerchiadau diddorol, meddylgar ac ysbrydoledig. Yn ogystal, cawsom lawer o fendith o fynychu gwasanaethau arbennig megis oedfa i ddatlu'r Pasg yng nghwmni Côr Caerdydd, oedfa i ddatlu tri chan mlwyddiant William Williams Pantycelyn, ac oedfa i gofio neges a gwerthoedd y ddiweddar Jo Cox AS. Diolch i'r Gweithgor am lunio'r rhaglen, i Rowland Wynne am drefnu'r rota llywyddion, i Geraint Rees am baratoi'r daflen wythnosol, ac i'r aelodau fu'n llunio'r sleidiau o Sul i Sul. Hoffwn dalu teyrnged hefyd i'r criw o gyfeilyddion am eu cyfraniadau pwysig hwythau i'r gwasanaethau gyda'u dewis meddylgar o gerddoriaeth i greu naws arbennig i'r oedfaon. Cawsom gyfle eto eleni i ddatlu bedydd sawl plentyn, ac un oedolyn, gyda Jane Eryl Jones yn arwain y gwasanaethau hyn.

Cytunodd y Bwrdd i brynu offer cyfieithu i'w ddefnyddio mewn ambell wasanaeth megis bedydd, priodas, angladd neu achlysuron arbennig eraill. Hyd yn hyn ni fu galw am y gwasanaeth hwn ond rydym yn ddiolchgar i'r aelodau hynny sydd eisoes wedi cynnig cyfieithu ar y pryd fel bo'r galw.

Pleser mawr yw nodi bod nifer y plant sy'n mynychu'r Ysgol Sul a'r Twmiaid yn parhau i fod yn un o brif gryfderau'r achos, gyda thros 80 o blant a phobl ifanc yn ymuno â ni'n rheolaidd yn ein gwasanaethau. Mae Dosbarth 1, sef y plant ieuengaf, yn gartrefol iawn gyda'u gweithgareddau yn Neuadd y Pentref lle mae digon o le iddynt ddod at ei gilydd mewn naws o hwyl a sbri. Mae Dosbarth 2 a'r

CAPEL Y TABERNAACL, Cyf.

Twmiaid yn manteisio ar yr adnoddau sydd ar gael yn y Ganolfan ac yn cael llawer o hwyl wrth ymchwilio, trafod a chyflwyno gwasanaethau ar wahanol themâu. Diolchaf yn ddiffuant i'r arweinwyr a'r rhieni sydd wrthi'n paratoi rhaglen lawn o weithgareddau amrywiol a pherthnasol i'r plant drwy gydol y flwyddyn. Braff iawn eleni oedd gweld aelodau hynaf yr Ysgol Sul yn cynrychioli'r eglwys yn Eisteddfod yr Urdd a gynhaliwyd ym Mhen-coed. Yn ogystal, paratowyd arddangosfa liwgar o waith y plant a baner yn darlunio gweithgareddau'r Tabernacl i'w gosod ym mhabell yr Ysgolion Sul ar y maes. Rhaid llongyfarch Emlyn ac Ann Davies am lunio'r faner a'r taflenni cyhoedduswydd i greu arddangosfa drawiadol o'n gweithgareddau amryfal ni fel eglwys.

Yn ddiweddar, cynhaliwyd noson i wirio aelodau'r eglwys sydd yng ngofal plant ac oedolion bregus. Trefnwyd fod o leiaf dau aelod o Fwrdd y Cyfarwyddwyr yn derbyn hyfforddiant i wneud y gwaith gwirio'n fewnol yn y dyfodol. Diolch i Gwion Evans, Cydlynnydd y Pwyllgor Amddiffyn Plant ac Oedolion Bregus, am ei waith yn trefnu hyn. Datblygiad arall a ddeilliodd o drafodaethau'r Bwrdd oedd derbyn yr hawl i gofrestru'r priodasau a gynhelir yn y capel yn fewnol. Rydym yn ddiolchgar i Rhiannon Humphreys (gyda chymorth Rhys Llewelyn a Helen Middleton) am gytuno i weithredu'r datblygiad ar ein rhan. Byddant yn derbyn hyfforddiant priodol maes o law, a bydd angen i ni brynu cist ddiogelwch i storio'r gofrestr a dogfennau perthnasol eraill.


Erbyn hyn, mae gwaith elusennol y capel yn hawlio dwy dudalen ym mhob rhifyn o *Tafod y Tab*. Mae'r Gweithgor Cyfiawnder Cymdeithasol yn cwrdd yn rheolaidd ac yn ein hannog ni'n gyson i helpu eraill llai breintiedig mewn amryw o ffyrdd. Adroddodd John Llewellyn Thomas, Cadeirydd y Gweithgor, fod ein Casgliad Elusennol wedi cyflwyno dros £600 yr un i bum elusen yn 2016. Eleni, rydym wedi mabwysiadu pum elusen newydd, sef Gofalwyr Ifanc Pontypridd, Ysgol Tŷ Coch, Adref, Cymorth i Ferched a Pedal Power. Mae'r dystiolaeth o haelioni aelodau'r eglwys i gefnogi'r anghenus o fewn ein cymuned leol a thu hwnt yn amlwg iawn. Mae'r cyfraniadau misol hyn yn bwysig i helpu'n elusennau lleol a hefyd i gefnogi eglwys LEC Mohale's Hoek yn Lesotho. Ar y llaw arall, mae'r cyfraniadau ymarferol – nwyddau i'r Banc Bwyd, eitemau hylendid, dillad, cewynnau babanod ac eitemau i'r cartref, sydd weithiau'n llenwi'r adeilad – yn amhrisiadwy i gynnal teuluoedd lleol a ffoaduriaid mewn gwledydd tramor. Rhaid diolch hefyd i'r criw brwdfrydig o wirfoddolwyr sy'n rhoi o'u hamser yn rheolaidd i helpu i fwydo'r digartref yng Nghapel y Tabernacl Caerdydd, trefnu casgliad y banc bwyd yn Archfarchnad Tesco, trefnu casgliad o dŷ i dŷ yn ystod wythnos Cymorth Gristnogol, a gofalu am aelodau lleol sydd ag angen cymorth. Diolch i'r aelodau hyn am eu gwaith diflino o flwyddyn i flwyddyn.

Cafodd Pwyllgor y Meddiannau ychydig o saib eleni ar ôl i gyfnod dwys y prosiect i adnewyddu'r capel ddod i ben. Er hynny, maent yn parhau i gwrdd yn rheolaidd i gyflawni'r gwaith diddiolch ond angenrheidiol i drwsio, peintio a chwynnu sy'n sicrhau bod yr adeiladau a'r fynwent yn gymen a diogel bob amser.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, cyhoeddwyd dau rifyn o'n cylchgrawn lliwgar *Tafod y Tab*, a'r ddau'n gyfuriog o ddeunydd darllen difyr ac amrywiol gan gynnwys adroddiadau o weithgareddau'r eglwys, portreadau o ambell aelod, ysgrifau a chyhoeddiadau. Diolch i bawb a gyfrannodd i'r rhifynnau hyn a diolch yn arbennig i Ann ac Emlyn Davies am olygu rhifyn mis Ionawr a Glenys Roberts am olygu rhifyn Gorffennaf.

Pan dderbyniodd y capel gais yn ddiweddar i helpu yn y gwaith o godi arian i ddarparu diffibriliwr i'r pentref, prin y breuddwydiodd neb pa mor llwyddiannus fyddai'r ymgyrch. Ym mis Mawrth cynhaliwyd cyngerdd bythgofiadwy yn y capel wedi'i drefnu a'i berfformio gan dri chôr sy'n ymarfer yn wythnosol yn Efail Isaf, sef Côr Godre'r Garth, Côr yr Einion a Pharti'r Efail. Codwyd dros £1,500 ar y noson, a chyfrannwyd £250 pellach yn ddiweddarach. Bydd y Bwrdd yn cydweithredu â Phwyllgor Rheoli Neuadd y Pentref i brynu a gosod y diffibriliwr yn ei le mor fuan â phosib.

Cyflwynwn ein cyfrifon am 2016, gan nodi ein diolch i'n cyfrifydd Emyr Evans am ei waith trylwyr unwaith yn rhagar. Ar ran holl swyddogion yr eglwys, hoffwn ddiolch i bawb am eich cyfraniadau hael eto eleni.



Wendy Reynolds, Cadeirydd

CAPEL Y TABERNACL, Cyf.

ADRODDIAD YR ARCHWILYDD ANNIBYNNOL I YMDDIRIEDOLWYR CAPEL Y TABERNACL, CYF.

Yr wyf yn adrodd ar y cyfrifon am y flwyddyn yn diweddu 31 Rhagfyr 2016 fel y nodir hwy ar dudalennau 12–20.

Priod Gyfrifoldebau'r Ymddiriedolwyr a'r Archwilydd

Ymddiriedolwyr yr elusen (sydd hefyd yn Gyfarwyddwyr at ddiben cyfraith cwmnïau) sy'n gyfrifol am baratoi'r cyfrifon. Mae Ymddiriedolwyr yr elusen o'r farn nad oes angen awdit am eleni (dan Adran 144(2) Deddf Elusennau 2011 (Deddf 2011) ac mai'r hyn sydd ei angen yw archwiliad annibynnol.

Wedi bodloni fy hun nad oes angen i'r elusen dderbyn awdit o dan gyfraith cwmnïau, a'i bod yn gymwys ar gyfer archwiliad annibynnol, fy nghyfrifoldeb i yw:

- archwilio'r cyfrifon dan Adran 145 o Ddeddf 2011;
- dilyn y gweithdrefnau a nodir yn y Cyfarwyddiadau Cyffredinol a nodwyd gan y Comisiwn Elusennau (dan Adran 145(5)(b) o Ddeddf 2011); a
- nodi a oes unrhyw faterion penodol wedi dod i'm sylw ai peidio.

Sail datganiad yr Archwilydd Annibynnol:

Cwblhawyd fy archwiliad yn unol â'r Cyfarwyddiadau Cyffredinol a osodwyd gan y Comisiwn Elusennau. Mae archwiliad yn cynnwys adolygiad o'r cofnodion cyfrifo a gedwir gan yr elusen, a chymharu'r cyfrifon a gyflwynwyd â'r cofnodion hynny. Y mae hefyd yn cynnwys ystyriaeth o unrhyw eitemau anghyffredin neu ddatgeliadau yn y cyfrifon, a gofynnwyd i chi fel Ymddiriedolwyr am esboniadau o unrhyw faterion o'r fath. Nid yw'r gweithdrefnau a fabwysiadwyd yn darparu'r holl dystiolaeth a fyddai'n angenrheidiol mewn awdit, ac oherwydd hynny ni nodir unrhyw farn a yw'r cyfrifon hyn yn darparu 'darlun cywir a theg' ai peidio, ac mae'r adroddiad wedi ei gyfyngu i'r materion hynny a nodir yn y datganiad isod.

Datganiad yr Archwilydd Annibynnol

Mewn cysylltiad â'm harchwiliad, nid oes unrhyw fater wedi dod i'm sylw:

(1) sy'n rhoi achos rhesymol i mi gredu nad yw'r gofynion isod, mewn unrhyw ystyr faterol, wedi eu cyflawni: cadw cofnodion cyfrifo yn unol ag Adrannau 386 a 387 Deddf Cwmnïau 2006; a pharatoi cyfrifon sy'n cydsynio â'r cofnodion cyfrifo, a chydymffurfio â gofynion cyfrifo Adrannau 394 a 395 Deddf Cwmnïau 2006 gan ddefnyddio methodoleg ac egwyddorion *Accounting and Reporting by Charities: Statement of Recommended Practice* sy'n berthnasol i elusennau sy'n paratoi eu cyfrifon yn unol â Safon Adroddiadau Cyllidol y Deyrnas Gyfunol a Gweriniaeth Iwerddon (FRS 102) (gweithredol o 1 Ionawr 2015); ac

(2) nad oes unrhyw fater, yn fy marn i, y dylid tynnu sylw ato er mwyn dod i ddealltwriaeth lawn o'r cyfrifon.



Emyr Evans
Watts Gregory LLP
Cyfrifwyr Siartredig
Elfed House, Oak Tree Court
Parc Busnes Porth Caerdydd
CAERDYDD
Sir Caerdydd
CF23 8RS

Dyddiad:

25 / 7 / 17

CAPEL Y TABERNAACL, Cyf.

DATGANIAD O WEITHGAREDDAU ARIANNOL (YN CYNNWYS CYFRIF O INCWM A GWARIANT) AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 RHAGFYR 2016

Nodiadau	Cronfeydd Anghyfnygedig £	Cronfeydd Cyfyngedig £	2016 Cyfanswm Cronfeydd £	2015 Cyfanswm Cronfeydd £
INCWM A GWADDOLION O:				
Rhoddion a chymynroddion	3	46,889	13,260	60,149
Gweithgareddau Elusennol	5			
Gweithgareddau Crefyddol		-	3,627	3,811
Incwm o fuddsoddiad	4	20	-	20
Cyfanswm		<u>46,909</u>	<u>16,887</u>	<u>63,796</u>
GWARIANT AR:				
Gweithgareddau Elusennol	6			
Gweithgareddau Crefyddol		45,204	5,205	50,409
INCWM NET		<u>1,705</u>	<u>11,682</u>	<u>13,387</u>
Trosglwyddiad rhwng cronfeydd	17	12,281	(12,281)	-
Trosglwyddiad net rhwng cronfeydd		13,986	(599)	13,387
CYSONI'R CRONFEYDD				
Cyfanswm y cronfeydd a gariwyd ymlaen		738,340	2,250	740,590
CYFANSWM Y CRONFEYDD A GARIWYD YMLAEN		<u>752,326</u>	<u>1,651</u>	<u>753,977</u>

GWEITHGAREDDAU SY'N PARHAU

Mae'r holl incwm a'r gwariant yn deillio o weithgareddau sy'n parhau.

Mae'r nodiadau yn ffurfio rhan o'r datganiadau ariannol hyn

CAPEL Y TABERNACL, Cyf.

MANTOLEN HYD AT 31 RHAGFYR 2016

	Nodiadau	Cronfeydd Anghyfyngedig £	Cronfeydd Cyfyngedig £	2016 Cyfanswm Cronfeydd £	2015 Cyfanswm Cronfeydd £
ASEDAU SEFYDLOG					
Asedau Diriaethol	13	695,196	-	695,196	653,296
ASEDAU CYFREDOL					
Arian yn y banc		69,130	1,651	70,781	102,294
CREDYDWYR					
Yn ddyledus o fewn y flwyddyn	14	(3,000)	-	(3,000)	(3,000)
ASEDAU CYFREDOL NET					
		66,130	1,651	67,781	99,294
CYFANSWM ASEDAU LLAI DYLEDION CYFREDOL					
		761,326	1,651	762,977	752,590
CREDYDWYR					
Yn ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn	15	(9,000)	-	(9,000)	(12,000)
ASEDAU NET					
		752,326	1,651	753,977	740,590
CRONFEYDD					
Cronfeydd Anghyfyngedig	17			752,326	738,340
Cronfeydd Cyfyngedig				1,651	2,250
CYFANSWM Y CRONFEYDD					
				753,977	740,590

Mae gan gwmni elusennol hawl i beidio â chynnal awdit, dan Adran 477 o Ddeddf Cwmnïau 2006, am y flwyddyn yn diweddu ar 31 Rhagfyr 2016.


Nid yw'r aelodau wedi gofyn i'r cwmni elusennol gynnal awdit o'u cyfrifon ariannol am y flwyddyn yn diweddu 31 Rhagfyr 2016 yn unol ag Adran 476 Deddf Cwmnïau 2006.


Mae'r Ymddiriedolwyr yn cydnabod eu cyfrifoldeb dros y canlynol:

- (a) sicrhau bod y cwmni elusennol yn cadw cyfrifon sy'n cyd-fynd â gofynion Adran 386 a 387 o Ddeddf Cwmnïau 2006, ac
- (b) yn paratoi datganiadau ariannol sy'n adlewyrchu'n gywir a theg sefyllfa'r cwmni elusennol ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol, gan gynnwys y gwarged neu'r ddyled yn unol â gofynion Adranau 394 a 395 ac sydd fel arall yn cydymffurfio â gofynion Deddf Cwmnïau 2006 o safbwynt datganiadau ariannol cwmnïau elusennol.

Cafodd y datganiadau ariannol eu paratoi i gydymffurfio â gofynion arbennig Rhan 15 o Ddeddf Cwmnïau 2006 sy'n berthnasol i gwmnïau elusennol.

Cafodd y datganiadau ariannol eu cymeradwyo gan Fwrdd yr Ymddiriedolwyr ar 25 Gorffennaf 2017 a'u harwyddo gan


 Margaret Pritchard Copley
 Cyfarwyddwr


 Gwilym Huws
 Cyfarwyddwr

CAPEL Y TABERNAACL, Cyf.

NODIADAU GYDA'R DATGANIADAU ARIANNOL AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 RHAGFYR 2016

1. GWYBODAETH STATUDOL

Mae Capel y Tabernacl Cyf. yn gwmni cyfyngedig dan warant wedi ei ymgorffori yng Nghymru o fewn y Deyrnas Gyfunol. Y Swyddfa Gofrestredig yw 9 Gerddi'r Sofran, Meisgyn, Pontyclun, Rhondda Cynon Taf, Cymru, CF72 8SZ.

Mae'r datganiadau ariannol wedi eu cyflwyno mewn Sterling (£), sef arian cyfred y cwmni, yn grwn i'r bunt agosaf.

Prif ddiben a natur yr elusen yw hybu gweithgarwch crefyddol.

Caiff y prif bolisiau cyfrifo a ddefnyddiwyd wrth baratoi'r datganiadau ariannol hyn eu nodi isod. Cafodd y polisiau eu gweithredu'n gyson dros yr holl flynyddoedd a gyflwynir, oni nodir yn wahanol.

2. POLISIAU CYFRIFO

Sail paratoi'r datganiadau ariannol

Mae datganiadau ariannol y cwmni elusennol, sydd yn endid budd cyhoeddus dan FRS 102, wedi cael eu paratoi yn unol â SORP (FRS 102) *Accounting and Reporting by Charities: Statement of Recommended Practice* sy'n gymwys i elusennau sy'n paratoi eu cyfrifon yn unol â Safon Adroddiadau Ariannol yn y Deyrnas Gyfunol a Gweriniaeth Iwerddon (FRS 102 S1A Bwletin Diweddariad 1) (gweithredol o 1 Ionawr 2015), a Deddf Cwmnïau 2006. Mae'r datganiadau ariannol wedi eu paratoi ar sail confensiwn hanesyddol.

Mae Capel y Tabernacl Cyf yn cwrdd â'r diffiniad o endid budd cyhoeddus dan FRS 102. Mae'r asedau a'r dyledion yn cael eu cydnabod ar y cychwyn cyntaf ar gost neu werth gweithrediad hanesyddol oni nodir yn wahanol yn y nodyn/nodiadau cyfrifo perthnasol.

Mabwysiadu FRS 102 am y tro cyntaf

Wrth baratoi'r cyfrifon, mae'r Ymddiriedolwyr wedi ystyried, wrth fabwysiadu'r polisiau cyfrifo sy'n ofynnol dan FRS102 SA1 Bwletin Diweddarau 1 a SORP FRS102 i Elusennau, a oedd angen ail-ddatgan eitemau cymharol.

